

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG
BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT
TALBOT A DINAS A SIR ABERTAWY YN ARDAL
HEOL PONTARDAWE

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT A DINAS A SIR ABERTAWE YN ARDAL HEOL PONTARDAWE

ADRODDIAD A CHYNYGION

1. CYFLWYNIAD
2. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG
3. CYNIGION DRAFFT
4. CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLIADAU A DDAETH I LAW MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT
5. ASESIAID
6. CYNIGION
7. TREFNIADAU CANLYNIADOL
8. CYDNABYDDIAETHAU
9. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 20395031
Rhif Ffacs: (029) 20395250
E-bost: lgbc@lgbc-wales.gov.uk

H Rhodri Morgan Ysw AS AC
Prif Ysgrifennydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT A DINAS A SIR ABERTAW YN ARDAL HEOL PONTARDAWE

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Rydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau'r arolwg o ran o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe yn adran Heol Pontardawe a chyflwynwn ein cynigion ar gyfer ffin newydd.

2. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

- 2.1 Mae Adran 54(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf) yn nodi y gall y Comisiwn, o ganlyniad i arolwg a gynhelir ganddynt, gyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweithredu newidiadau sy'n ymddangos yn ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Y drefn

- 2.2 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi'r canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw ysgrifenasom, ar 28ain Mehefin 1999, i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chynghorau Dinas a Sir Abertawe, Cynghorau Cymuned Clydach a Phontardawe, yr Aelodau Seneddol dros yr etholaethau lleol, Aelodau'r Cynulliad dros yr ardal, cymdeithasau yr awdurdod lleol, awdurdod yr heddlu dros yr ardal a'r pleidiau gwleidyddol i'w hysbysu o'n bwriad i gynnal yr arolwg, ac i ofyn am eu safbwyntiau cychwynnol. Gwahoddwyd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer newidiadau i'r ffin. Hefyd, rhoesom gyhoeddusrwydd i'n bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol a ddosberthir yn yr ardal a gofynnwyd i'r cynghorau arddangos hysbysiadau cyhoeddus.

3. CYNIGION DRAFFT

- 3.1 Derbyniwyd cynrychioliadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Cyngor Dinas a Sir Abertawe; dau gyngor tref a chymuned; Martin Caton AS; Peter Hain AS; Alun Cairns AC; Val Feld AC; Edwina Hart AC;

Gwenda Thomas AC; a thri chorff a thrigolion eraill oedd â diddordeb. Ystyriwyd y cynrychioliadau hyn a cheir crynodeb ohonynt yn ein Cynigion Drafft a gyhoeddwyd ar 25 Chwefror 2000.

- 3.2 Argymhellodd ein Cynigion Drafft y dylid adlinio'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe yn yr ardal dan arolwg i ddilyn y llinell bresennol ar hyd canol Heol-y-Ffin nes iddi gyrraedd pwynt gyferbyn â'r ffin rhwng 172 Heol Pontardawe a 246 Heol Abertawe. Dylai'r ffin wedyn droi i ddilyn llinell y ffin ffens hon nes iddi gwrdd â'r ffin bresennol unwaith eto. Nodwyd y newid arfaethedig i'r ffin ar y map yn yr adroddiad.
- 3.3 Anfonwyd copiau o'r Cynigion Drafft at bob cyngor, corff ac unigolyn y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 2.2 yn gofyn am eu barn. Hefyd anfonwyd copi at unrhyw un a oedd wedi cyflwyno sylwadau rhagarweiniol. Drwy hysbysiad cyhoeddus gwahoddwyd unrhyw sefydliad neu berson arall oedd â diddordeb yn yr arolwg i gyflwyno eu barn. Roedd copiau o'r Cynigion Drafft ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Comisiwn a hefyd yn swyddfeydd Awdurdod Heddlu De Cymru.

4. CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLIADAU A DDAETH I LAW MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

- 4.1 Derbyniwyd cynrychioliadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Cyngor Cymuned Clydach; Edwina Hart AC; a dau gorff a thrigolion eraill oedd â diddordeb. Ystyriwyd pob un o'r cynrychioliadau hyn yn ofalus cyn llunio ein cynigion.
- 4.2 Dywedodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** nad oeddynt yn dymuno gwneud unrhyw gynrychioliadau pellach ynghylch arolwg y Comisiwn o'r ffin.
- 4.3 Roedd **Cyngor Cymuned Clydach** yn cefnogi'r newid arfaethedig i'r ffin bresennol a amlinellwyd yn y Cynigion Drafft.
- 4.4 Dywedodd **Edwina Hart AC** ei bod yn cefnogi'r newid arfaethedig i'r ffin bresennol a amlinellwyd yn y Cynigion Drafft.
- 4.5 Nid oedd gan **Arolwg Ordans** unrhyw sylwadau i'w gwneud am y newid arfaethedig i'r ffin bresennol.
- 4.6 Dywedodd **Mr P Davies**, yn ysgrifennu ar ran trigolion 162 i 172 Heol Pontardawe, fod trigolion yr eiddo dan sylw yn cefnogi'r newid arfaethedig i'r ffin bresennol a amlinellwyd yn y Cynigion Drafft.

5. ASESIAID

- 5.1 Yn ein Cynigion Drafft nodwyd bod consensws cyffredinol bod angen newid y ffin bresennol rhwng Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe gan na ddiffinnir yn glir lle y mae'n gorwedd yng nghefn yr eiddo yn 162 i 172 Heol Pontardawe. Derbyniwyd tri chynnig ar gyfer ffin wahanol:
- y dylai'r ffin barhau'r llinell bresennol ar hyd y ffin rhwng rhif 162 Heol Pontardawe a'r fynwent nes iddi gyrraedd glan Camlas Abertawe ac yna dilyn y gamlas nes iddi gyrraedd y ffin bresennol;
 - y dylai'r ffin barhau'r llinell bresennol ar hyd canol Heol-y-Ffin nes iddi gyrraedd canol Heol Pontardawe. Yna dylai droi tuag at Drebanos nes iddi gyrraedd pwynt gyferbyn â'r ffin rhwng 172 Heol Pontardawe a 246 Heol Abertawe. Dylai'r ffin wedyn droi i ddilyn llinell y ffin ffens hon nes iddi gwrdd â'r ffin bresennol unwaith eto;
 - y dylai'r ffin newid cyfeiriad o'r ffin bresennol ar y pwynt lle mae'n cwrdd â'r llinell rheilffordd segur. Dylai wedyn ddilyn llwybr nant yng nghefn 39 Heol-y-Llwynan ac ymlaen mewn ceuffos i gefn 2 Heol y Fferm lle mae'n ymddangos am gyfnod byr eto cyn mynd o dan y ddaear gan ymddangos ar ffin 'Den Van' a 230 Heol Abertawe.
- 5.2 Cyn cyhoeddi ein Cynigion Drafft gwnaed ymweliad safle â'r ardal er mwyn arolygu'r sefyllfa'n gyffredinol, ac ystyried y cynigion gwahanol ar gyfer adlinio'r ffin. Ystyriwyd bod y ffin a gynigiwyd yn yr ail ddewis wedi'i diffinio'n glir, y byddai ond yn effeithio ar nifer fach o'r trigolion a'i bod yn ymddangos ei bod yn bodloni'r pryderon ynglŷn â materion cyflwyno gwasanaeth a godwyd.
- 5.3 Ystyriwyd y cynrychioliadau a wnaed i ni mewn ymateb i'n Cynigion Drafft ac rydym yn fodlon bod y mwyafrif llethol o blaid yr adliniad a gynigwyd yn ein Cynigion Drafft.

6. CYNIGION

- 6.1 Wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni, rydym yn cynnig, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, y dylid adlinio'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe yn yr ardal dan arolwg i ddilyn y llinell bresennol ar hyd canol Heol-y-Ffin nes iddi gyrraedd canol Heol Pontardawe. Dylai wedyn droi tuag at Drebanos nes iddi gyrraedd pwynt gyferbyn â'r ffin rhwng 172 Heol Pontardawe a 246 Heol Abertawe. Dylai'r ffin wedyn droi i ddilyn llinell y ffin ffens hon nes iddi gwrdd â'r ffin bresennol unwaith eto. Dangosir y newid arfaethedig i'r ffin mewn glas ar y map yn Atodiad 1.
- 6.2 O ganlyniad:

Caiff yr ardal sy'n cynnwys pob eiddo rhwng 162 a 172 Heol Pontardawe fel y nodir ar y map yn Atodiad 1 ei throsglwyddo o Ward Trebanos yng Nghymuned Pontardawe yng Nghastell-nedd Port Talbot i Ward Clydach yng Nghymuned Clydach yn Abertawe. Gan fod rhanbarth etholiadol Trebanos yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gydffiniol â ward Trebanos yng Nghymuned Pontardawe a bod rhanbarth etholiadol Clydach yn cynnwys Ward Clydach yng Nghymuned Clydach, bydd newid cyfatebol i ffiniau'r rhanbarthau etholiadol hyn.

7. TREFNIADAU CANLYNIADOL

- 7.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynnig i newid y ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe. Wrth ystyried y newid i'r ffin roedd hefyd angen i ni ystyried yr effeithiau ar y trefniadau etholiadol ar gyfer y cynghorau cymuned a'r prif gynghorau awdurdod a fyddai'n deillio o'r newid hwn.
- 7.2 Tynnwn sylw at y ffaith y byddai chwe eiddo preifat yn cael eu trosglwyddo o Gastell-nedd Port Talbot i Abertawe pe bai'r ffin arfaethedig yn cael ei mabwysiadu. Byddai hyn yn gofyn am newid cofrestrau etholiadol y cynghorau perthnasol ond oherwydd y nifer fach o etholwyr dan sylw, ni fyddai'n effeithio ar y trefniadau etholiadol ar gyfer y cynghorau cymuned na'r prif gynghorau.

8. CYDNABYDDIAETHAU

- 8.1 Hoffem fynegi ein diolch i'r prif gynghorau ac i'r holl gynghorau cymuned am eu cymorth yn ystod yr arolwg ac i bob person a chorff a gyflwynodd gynrychioliadau i ni.

9. YMATEBION I'R AROLWG HWN

- 9.1 Wedi cwblhau ein harolwg o ran o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe yn ardal Heol Pontardawe a chyflwyno ein hargymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol o dan y Ddeddf.
- 9.2 Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach, os gwêl fod hynny'n briodol, yw eu gweithredu gydag addasiadau neu hebddynt drwy Orchymyn neu gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg pellach. Ni wneir Gorchymyn o'r fath cyn cyfnod o chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 9.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychioliadau pellach yn ymwneud â'r materion yn yr adroddiad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid eu cyflwyno cyn

gynted â phosibl, ac yn sicr heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid cyfeirio cynrychioliadau i:

Adain Moderneiddio Llywodraeth Leol 2
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

YR ATHRO E SUNDERLAND OBE LL MA PhD LLD FIBiol (Cadeirydd)

E F L FITZHUGH OBE DL (Dirprwy Gadeirydd)

MRS S G SMITH LLB (Aelod)

R L KNIGHT BA MSc MRTPI (Ysgrifennydd)

Gorffennaf 2000